


Cydbwyllgor Llywodraethu – Crynodeb o Berfformiad PPC Ch3 2025

Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Cododd Mynegai Net y Byd MSCI 7.3% (USD) mewn chwarter positif i ecwiti byd-eang. Bu i gynnydd ar drafodaethau masnachu gyda gweinyddiaeth yr Arlywydd Trump ac enillion corfforaethol cadarn, gynorthwyo'r sentiment, gan helpu i wthio mynegeion mawr i uchelfannau newydd. Bu i bob rhanbarth wneud cynnydd, gydag Asia a'r marchnadoedd datblygol yn perfformio orau yn nhermau USD. Bu i'r UD a Siapan hefyd berfformio'n well na'r mynegai byd-eang, tra bo Ewrop a'r DU yn llusgo y tu ôl iddynt. Gostwng wnaeth prisiau olew ar ôl cyrraedd pris o \$70 y gasgen ym mis Gorffennaf. Cyrhaeddodd aur record newydd, gan fynd dros \$3,500, a dringo i \$3,800 ar ddiwedd y chwarter, gan elwa o'i statws hafan diogel. Torrodd y Federal Reserve (Fed) ei gyfradd llog 25 pwynt (bps) i 4.25% ym mis Medi, yn ôl y disgwyl. Dadl Cadeirydd y Fed, Jerome Powell, oedd bod y risgiau cyflogaeth am i lawr wedi cynyddu. Hefyd, fe wnaeth Banc Canada a Banc Lloegr dorri cyfraddau llog 25 bps yn y chwarter, ond aros heb eu newid wnaeth cyfraddau Banc Canolog Ewrop.

Yn y DU, roedd y marchnadoedd yn anwadal yn gynnar yn y cyfnod, wedi'i sbarduno ar ôl i'r llywodraeth wydroi ei fwrdd i dorri'r wladwriaeth lles – a'r pwysau dilynol ar ei reolau ariannol ei hun. Cynyddodd enillion giltiau deng mlynedd yn gyflym gyda'r sibrydion am ddyfodol y Canghellor Rachel Reeves. Er y bu i'r enillion syrthio yn ôl ar ôl sylwadau cefnogol gan y Prif Weinidog; parhau wnaeth y pryderon am y rhagolygon ariannol. Roedd hyn, ynghyd â chwyddiant uwch na'r disgwyl, ac arwyddion pellach o farchnad swyddi sy'n gwanhau, wedi gwrthio'r enillion yn uwch. Bu i ail bleidlais fwyaf (o drwch blewyn) Banc Lloegr am doriad cyfraddau o 25 bps yn ei gyfarfod ym mis Awst hefyd gyfrannu at gynnydd mewn enillion giltiau. Roedd chwyddiant uwch na'r disgwyl a ffigyrau twf GDP calonogol wedi cymell masnachwyr i leihau'r disgwyliadau o ran toriad yn y cyfraddau. Cynyddodd chwyddiant i 3.8% ym mis Gorffennaf, o 3.6%, yn gynt na'r disgwyl, er aros heb ei newid a wnaeth ym mis Awst. Yn gynnar ym mis Medi, cyrhaeddodd enillion giltiau 10-mlynedd uchelfannau na welwyd ers mis Ionawr, ac roedd enillion y giltiau 30-mlynedd wedi cyrraedd eu uchaf ers 1998 yn sgil pryderon am arian cyhoeddus a llongyddwch economaidd. Rhywbeth arall a ychwanegodd at y cynnwrf gwleidyddol oedd ymddiswyddiad y dirprwy brif weinidog, a orfododd y prif weinidog i aildrefnu ei gabiniet. Wrth i Fanc Lloegr gadw ei gyfradd llog o 4.0% ym mis Medi, fe ddatganodd gyfradd arafach o dynhau meintiol, gan leihau ei fantolen o £70 biliwn yn y 12 mis o fis Hydref. Dros y chwarter, cododd yr enillion ar y giltiau 10-mlynedd meincnod o 21 bps i 4.70%.

Perfformiad dosbarth ased – y Chwarter hyd Heddiw (Medi 2025)



Meincnodau: Global equity hedged (MSCI World ACWI), UK equity (FTSE All Share), US equity hedged (Russell 1000 Net GBPH), Europe ex UK equity (MSCI Europe ex UK Equity Net GBPH), Japan equity (TOPIX Net GBPH), Ecwiti Marchnadoedd Datblygol (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer swyddogion PPC yn seiliedig ar berfformiad gan Northern Trust. Mae dyddiadau cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall dyddiadau cychwyn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Crynodeb o Is-gronfeydd PPC (Gros):

Perfformiad Gros PPC	Ch3 2025			Blwyddyn			3 Blynedd			Ers Cychwyn			Dyddiad Cychwyn
	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	
Cronfa Twf Byd-eang	8.7	9.5	-0.8	14.3	14.9	-0.6	13.7	15.0	-1.3	10.9	12.2	-1.3	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	10.4	9.5	0.9	18.3	16.8	1.5	15.7	15.7	0.0	13.4	12.5	0.9	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	7.1	9.5	-2.4	8.9	16.8	-7.9	-	-	-	11.8	17.3	-5.5	23/06/2023
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	14.0	12.7	1.3	23.4	17.1	6.3	12.7	11.2	1.5	4.9	4.2	0.7	20/10/2021
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	4.8	6.9	-2.1	14.4	16.2	-1.8	16.3	14.5	1.8	7.1	7.5	-0.4	23/09/2019
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	1.4	0.6	0.8	2.0	1.8	0.2	4.2	3.3	0.9	-0.4	-1.3	0.9	30/07/2020
Cronfa Credyd Byd-eang	2.1	2.0	0.1	4.2	4.1	0.1	6.4	6.3	0.1	0.0	0.0	0.0	27/07/2020
Cronfa Credyd Aml-ased	4.2	2.0	2.2	7.7	8.8	-1.1	11.0	8.9	2.1	4.5	7.0	-2.5	27/07/2020
Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt	1.2	1.5	-0.3	6.8	6.7	0.1	6.7	6.8	-0.1	4.5	5.0	-0.5	30/09/2020
Cronfa Credyd Sterling	0.6	0.7	-0.1	3.9	3.7	0.2	7.8	6.9	0.8	-0.2	-1.1	0.9	27/07/2020

Crynodeb o Is-gronfeydd PPC (Net):

Perfformiad Net PPC	Ch3 2025			Blwyddyn			3 Blynedd			Ers Cychwyn			Dyddiad Cychwyn
	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	
Cronfa Twf Byd-eang	8.7	9.5	-0.8	14.0	14.9	-0.9	13.3	15.0	-1.7	10.5	12.2	-1.7	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	10.3	9.5	0.8	18.0	16.8	1.2	15.3	15.7	-0.4	13.1	12.5	0.6	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	7.0	9.5	-2.5	8.5	16.8	-8.3	-	-	-	11.4	17.3	-5.9	23/06/2023
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	13.9	12.7	1.2	23.0	17.1	5.9	12.2	11.2	1.0	4.5	4.2	0.3	20/10/2021
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	4.7	6.9	-2.2	14.1	16.2	-2.1	15.9	14.5	1.4	6.7	7.5	-0.8	23/09/2019
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	1.3	0.6	0.7	1.7	1.8	-0.1	3.9	3.3	0.6	-0.7	-1.3	0.6	30/07/2020
Cronfa Credyd Byd-eang	2.1	2.0	0.1	4.0	4.1	-0.1	6.2	6.3	-0.1	-0.2	0.0	-0.2	27/07/2020
Cronfa Credyd Aml-ased	4.2	2.0	2.2	7.3	8.8	-1.5	10.6	8.9	1.7	4.1	7.0	-2.9	27/07/2020
Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt	1.1	1.5	-0.4	6.5	6.7	-0.2	6.4	6.8	-0.4	4.2	5.0	-0.8	30/09/2020
Cronfa Credyd Sterling	0.6	0.7	-0.1	3.7	3.7	0.0	7.6	6.9	0.7	-0.3	-1.1	0.8	27/07/2020

Noder: Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad gwirioneddol) yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	8.7	14.3	13.7	10.4	10.9
Net	8.7	14.0	13.3	10.0	10.5
Mynegai Net MSCI AC World*	9.5	14.9	15.0	12.2	12.2
Enillion dros ben (gros)	-0.8	-0.6	-1.3	-1.8	-1.3
Enillion dros ben (Net)	-0.8	-0.9	-1.7	-2.2	-1.7

Dyddiad Cychwyn: 18 Tachwedd 2024
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025
Meincnod: Mynegai MSCI AC World Cyfanswm Enillion Net GBP

*Mae'r ffigyrau yn cynnwys saib yn y perfformiad ym mis Tachwedd 2024 wrth bontio'r Gronfa.

Noder bod Russell Investments wedi cymryd drosodd mandad y Gronfa Ecwiti Twf Byd-eang ar 18 Tachwedd 2024.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliad absoliwt positif dros y trydydd chwarter ond gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol.

Nid oedd gogwydd y Gronfa i gapiau bychan o fudd i amgylchedd y farchnad. O ran sectorau, roedd amlygiad dros bwysau a detholiad y stociau yn iechyd wedi tynnu oddi wrth hyn. Roedd hyn yn cynnwys gorbwysau i Baxter International a Novo Nordisk. Roedd y detholiad stociau o fewn ariannol (gorbwysau Moody's Corp) a diwydiannol (Carrier Global) hefyd yn aneffeithiol. Mewn technoleg gwybodaeth, roedd amlygiad tan-bwysau i'r sector a detholiad stociau yn ddiffygiol, yn enwedig tan-bwysau i Apple a Nvidia. Roedd hyn er gwaethaf yr effaith negyddol o orbwysau i TSMC, Samsung Electronics ac Oracle. Ar yr ochr positif, roedd y detholiad stociau mewn deunyddiau yn fuddiol (gorbwysau Kinross Gold). Roedd amlygiad tanbwysau i'r sectorau eiddo tiriog a chyfleustodau hefyd yn effeithiol. Ar lefel y rheolwr, Numeric oedd y perfformiwr gorau, er y bu iddo orffen y tu ôl i'r meincnod. Roedd ei ogwydd i ffwrdd o anwadalrwydd isel yn fanteisiol, tra roedd ei amlygiad i gapiau bach yn llesteirio pethau. O ran y sector, roedd ei ddetholiad stociau mewn deunyddiau wedi talu ar ei ganfed (gorbwysau Kinross Gold). Pzena berfformiodd waethaf. Roedd ei ogwydd capiau bychan yn rhwystyr yn y cyfnod hwn. Hefyd, cafodd ei effeithio'n negyddol gan ei amlygiad gorbwysau a'i ddetholiad stoc aneffeithiol yn y sector gofal iechyd (gorbwysau Baxter International).

Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	10.4	18.3	15.7	13.7	13.4
Net	10.3	18.0	15.3	13.4	13.1
Mynegai MSCI AC World Net	9.5	16.8	15.7	12.6	12.5
Enillion dros ben (gros)	0.9	1.5	0.0	1.1	0.9
Enillion dros ben (Net)	0.8	1.2	-0.4	0.8	0.6

Dyddiad Cychwyn: COB 31 Ionawr 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025

Meincnod: Mynegai MSCI AC World Cyfanswm Enillion Net GBP

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau absoliwt positif dros y trydydd chwarter ond gorffennodd o flaen y meincnod ar sail gymharol.

Bu i'r Gronfa berfformio'n uwch er gwaetha'r gogwydd i gapiau bychan a'i amlygiad tanbwysau i'r UD, oedd yn rhwystr yn y cyfnod. Mewn sectorau, roedd y detholiad stociau mewn diwydiant wedi gwneud cyfraniad amlwg at enillion dros y targed. Roedd hyn yn cynnwys troswysau i Contemporary Amperex Technology. Roedd tanbwysiad at, a'r detholiad stociau, mewn deunyddiau hefyd wedi talu ar ei ganfed. Yn benodol, roedd safle oddi ar y meincnod mewn AngloGold Ashanti a gorbwysau i Antofagasta yn fuddiol. Mewn ariannol, roedd troswysau i Commerzbank yn effeithiol. Mewn mannau eraill, bu amlygiad o dan bwysau i brif gynnyrch defnyddwyr yn bositif, gan mai hwn oedd y sector oedd yn perfformio waethaf, gan gofnodi colledion dros y cyfnod. Ar y llaw arall, mewn technoleg gwybodaeth, tynnu oddi ar bethau wnaeth y ddau ddyraniad (tanbwysau) a'r detholiad stociau (tanbwysau Nvidia, Apple). Roedd hyn er gwaethaf yr effaith bositif o orbwysau i TSMC a Seagate Technology Holdings. Nid oedd y detholiad stociau mewn gwasanaethau cyfathrebu (gorbwysau Meta, Universal Music Group) a disgresiwn defnyddwyr (tanbwysau Tesla) yn help chwaith. Ar lefel y rheolwr, yr arbenigwr marchnadoedd datblygol, Oaktree, oedd y perfformiwr gorau. Roedd y marchnadoedd datblygol wedi bod yn gryf dros y chwarter. Hefyd, fe elwodd y rheolwr o'i ogwydd i ffwrdd o enwau anwaladrwydd isel a'i amlygiad i ddeunyddiau (AngloGold Ashanti, Fresnillo). I'r gwrthwyneb, Morgan Stanley oedd y perfformiwr gorau. Nid oedd ei amlygiad o ansawdd o fudd yn amgylchedd y farchnad. Hefyd, cafodd ei gosbi am amlygiad tanbwysau i dechnoleg a detholiad stociau gwael o fewn disgresiwn defnyddwyr (gorbwysau MercadoLibre).

Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o 2.0% sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch3 2025	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	7.1	8.9	11.8
Net	7.0	8.5	11.4
Mynegai MSCI AC World Net	9.5	16.8	17.3
Enillion dros ben (gros)	-2.4	-7.9	-5.5
Enillion dros ben (Net)	-2.5	-8.3	-5.9

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Mehefin 2023
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025
Meincnod: Mynegai MSCI AC World Cyfanswm Enillion Net GBP

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa danberfformio ar yr enillion meincnod positif. Roedd sefyllfa'r ffactor yn negyddol wrth gronni, er gwaethaf iddo elwa o'r gogwydd tuag at dwf. Roedd y detholiad stociau yn negyddol yn yr Unol Daleithiau, gyda tanbwysau i Apple, Tesla a Alphabet yn rhwystrau allweddol. Ar y lefel sector, ni welwyd budd o'r trosbwysau mawr a'r detholiad mewn gofal iechyd ac roedd hyn yn cynnwys amlygiad i Novo Nordisk. Roedd y detholiadau mewn diwydiannau, deunyddiau a disgresiwn defnyddwyr hefyd yn negatif. Roedd y tanbwysau mawr i ynni yn bositif a thanberfformiad ychwanegol cyfyngedig. Tanberfformiodd Sparinvest yn yr ail chwarter ond dyma'r rheolwr a berfformiodd orau yn y cyfnod hwn, yn enwedig drwy ddethol stociau yn effeithiol. Wellington oedd y rheolwr a berfformiodd wanaf yn sgil detholiad stociau negyddol mewn sawl sector.

Sylwadau ar y Marchnadoedd Datblygol

Perfformiodd y marchnadoedd datblygol (EM) yn well na'r mynegai byd-eang fel sy'n cael ei fesur gan Fynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI, gan gofnodi enillion rhifau dwbl. Roedd Tsieina, De Affrica a'r Aifft ymysg y perfformwyr gorau. Cafodd marchnad ecwiti De Affrica hwb gan berfformiad cryf ymysg mwynwyr aur. Cryfhau wnaeth ecwiti Tsieina ar log cadarn gan fuddsoddwyr domestig a gwella sentiment wrth i densiynau masnach UD - Sino leddfu ac roedd data masnach yn galonogol gydag allforio yn well na'r rhagolygon ym mis Gorffennaf. I'r gwrthwyneb, roedd India, y Philipinnes ac Indonesia ar waelod y tabl, yn cofnodi colledion dros y cyfnod. Cafodd marchnadoedd ariannol India eu taro gan ddatganiad yr Arlywydd Trump o dariffau o 50% ar nwyddau India fel cosb am brynu olew o Rwsia, a bydd hyn yn effeithio ar allforio o India. Yn ogystal, mae'r farchnad wedi gweld llif tuag allan sylweddol o fuddsoddwyr tramor. Yn ddiweddarach yn y chwarter, cwympo fu hanes cwmnïau gwasanaethau TG o India wrth i'r Arlywydd Trump godi'r ffioedd am fisas H-1B, a allai ddifrodi diwydiant allanol mawr India. Yn Indonesia, cafodd hyder buddsoddwyr ei daro gan bryderon am wariant ariannol, a chafodd hyn ei waethgu gan warediad sydyn y gweinidog cyllid, Sri Mulyani. Yn y cyfamser, mae twf economaidd yn y wlad wedi arafu'n sylweddol, gan arwain at gynni cymdeithasol.

Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	14.0	23.4	12.7	4.9
Net	13.9	23.0	12.2	4.5
Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI	12.7	17.1	11.2	4.2
Enillion dros ben (gros)	1.3	6.3	1.5	0.7
Enillion dros ben (Net)	1.2	5.9	1.0	0.3

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Hydref 2021

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025

Meincnod: Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa berfformio'n well na'r enillion meincnod cadarnhaol. Roedd amlygiad cadarnhaol y Gronfa i dwf yn gweddu i amgylchedd y farchnad. Ni chafodd y gogwydd i fwrdd o stociau capiau mawr eu gwobrwyo yn y cyfnod hwn. Roedd dyraniad gwlad a detholiad stociau wedi gwneud cyfraniad positif. Roedd y tanbwysau i India mewn chwarter lle'r oedd ymysg y perfformwyr gwanaf wedi ychwanegu at enillion cymharol. Roedd y detholiad stociau yn effeithiol yn Tsieina a De Affrica. Roedd y sefyllfa mewn enwau mwyngloddio hefyd yn gyfranwyr allweddol ar y lefel stoc. Roedd y detholiad negyddol ym Mrasil a De Corea wedi pwyso ar berfformiad pellach oedd yn well na'r disgwyl. Roedd hyn yn cynnwys amlygiad i MercadoLibre a thanbwysau i Samsung Electronics. Oaktree oedd y strategaeth a berfformiodd orau y chwarter hwn, gan elwa o'i sefyllfa 'pro-cyclical' a throsbwysau i a detholiad yn Tsieina. Yn y cyfamser, dioddefodd Sands yn sgil detholiad negyddol yn Tsieina a'r sector disgrisiwn defnyddwyr.

Sylwadau ar Farchnad y DU

Tanberfformiodd ecwitiâu'r DU yn y mynegai byd-eang a marchnadoedd eraill, ac eithrio Ewrop. Deunyddiau sylfaenol oedd y perfformiwr amlycaf, gyda mwyngloddwyr yn elwa o gynnydd mewn prisiau nwyddau, yn enwedig aur (Fresnillo, Antofagasta). Mewn cyferbyniad, bu'n frwydr galed i'r enwau technoleg. Roedd y marchnadoedd yn anwadal yn gynnar yn y chwarter, wedi'i gymhell gan wyrddod y llywodraeth ar y toriadau oedd wedi'u cynllunio i'r wladwriaeth lles - a'r pwysau dilynol ar ei reolau ariannol ei hun. Roedd cefnogaeth ddilynol Keir Starmer, y Prif Weinidog, i'r Canghellor Rachel Reeves, wedi cynorthwyo i dawelu nerfusrwydd y farchnad. Torrodd y FTSE 100 drwy'r marc 9,000 ym mis Gorffennaf, wedi'i hybu gan adroddiadau o enillion cryf yn y sectorau bancio ac amddiffyn. Wrth i Fanc Lloegr ostwng cyfraddau i 4.0% ym mis Awst, rhoddodd rybudd y byddai chwyddiant yn cynyddu, gan ragfynegi y byddai'n cyrraedd ei uchaf mewn dwy flynedd ar 4.0% ym mis Medi, cyn cwmpo'n ôl yn raddol. Cynyddodd chwyddiant i 3.8% YoY ym mis Gorffennaf, o 3.6%, yn gynt na'r disgwyl, er aros heb ei newid a wnaeth ym mis Awst, oedd yn cyd-fynd â'r rhagolygon. Yn ddiweddarach, roedd y data yn dangos bod economi'r DU wedi tyfu 0.3% QoQ (1.4% YoY) yn yr ail chwarter, oedd yn well na'r rhagolygon. Roedd y ffigyrau PMI Cychwynnol ar gyfer mis Medi yn dangos gostyngiad mewn gweithgynhyrchu a gwasanaethau. Cafodd gweithgynhyrchu ei daro'n galed iawn yn sgil yr heriau yn y diwydiant awto.

Cronfa Cyfleoedd Ecwiti y DU:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	4.8	14.4	16.3	12.0	7.1
Net	4.7	14.1	15.9	11.6	6.7
FTSE All Share	6.9	16.2	14.5	13.0	7.5
Enillion dros ben (gros)	-2.1	-1.8	1.8	-1.0	-0.4
Enillion dros ben (Net)	-2.2	-2.1	1.4	-1.4	-0.8

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Medi 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025

Meincnod: Mynegai FTSE All Share

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

* Ffigyrau enillion cychwynnol wrth i Russel Investments gysoni anghysondebau gyda NT

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa danberfformio ar yr enillion meincnod positif. Roedd sefyllfa'r ffactor yn negyddol wrth gronni mewn cyfnod lle'r oedd stociau yn is i lawr y raddfa cyfalafu a'r stociau gwerth cap bychan ymysg y perfformwyr gwanaf. Roedd sefyllfa'r sector a'r detholiad stociau yn negyddol. Roedd hyn yn cynnwys lleoliad a detholiad mewn gwasanaethau cyfathrebu (trosbwysau), disgresiwn defnyddwyr (trosbwysau) a deunyddiau (tanbwysau). Roedd trosbwysau i WPP a'r Games Workshop Group a thanbwysau i Glencore, y cwmni mwyngloddio mawr, yn rhwystro mawr ar y lefel stoc. Fodd bynnag, roedd detholiad effeithiol o stociau mewn diwydiannau a gofal iechyd, ynghyd â thanbwysau i eiddo tiriog, wedi cyfyngu ar y tanberfformiad ychwanegol.

Yn ystod y chwarter, bu i ni derfynu Strategaeth Ddeinamig y DU J O Hambro a phenodi strategaeth Ecwiti Deinamig y DU Jupiter Asset Management. Mae gan ein tîm ymchwil gyfradd 4/Hire ar gyfer y strategaeth hon, sy'n cael ei rheoli gan gyn-reolwr portffolio strategaeth J O Hambro. Mae'r strategaeth yn gogwyddo at werth gyda rhagolygon 'contrarian', sy'n canolbwyntio ar adnabod cwmnïau wedi'u rhestru sy'n arddangos deinameg o newid positif.

Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Cynyddodd Mynegai Bond Agregau Byd-eang Bloomberg (USDH) 1.2% dros y chwarter. Fe wnaeth twf byd-eang gweddol wydn ac optimistiaeth parhaus yn y farchnad wthio enillion bondiau 10-mllynedd y llywodraeth yn uwch mewn marchnadoedd datblygedig mawr yn ystod mis Gorffennaf. Yn ddiweddarach, fe anfonodd gwendid ym marchnad lafur yr UD enillion Trysorlys 10-mllynedd tuag i lawr ac fe arweiniodd at newid polisi tybiedig gan y Federal Reserve (Fed), draw o reoli chwyddiant, i dwf a chyflogaeth. Yn y cyfamser, roedd nerfusrwydd y farchnad yn sgil polisiâu tariffau'r Arlywydd Trump wedi cilio wrth i'r Fed nodi y gallai'r effaith ar chwyddiant fod yn rhywbeth dros dro. Mewn marchnadoedd credyd, culhau wnaeth y lledaeniad, yn enwedig o ran enillion uchel. Cymysg oedd perfformiad doler yr UD, yn cryfhau yn erbyn yr yen Siapaneaidd a sterling y DU, ond gwanhau rhywfaint fu ei hanes yn erbyn yr ewro. Torrodd y Fed ei gyfradd o 25 pwynt (bps) i 4.25% ym mis Medi. Hefyd, fe wnaeth Banc Canada a Banc Lloegr dorri cyfraddau llog 25 bps yn y chwarter, ond aros heb eu newid wnaeth cyfraddau Banc Canolog Ewrop.

Culhau wnaeth lledaeniad credyd, mewn cyfnod pan oedd sentiment y farchnad yn cael ei chefnogi gan ddata economaidd calonogol, adroddiadau enillion corfforaethol cadarn, a chynnydd ar sgysiau masnachu gyda'r UD. Yn yr amgylchedd hwn, bu i enillion uchel berfformio'n well na chredyd graddfa fuddsoddi. Enillion Uchel Ewropeaidd wnaeth berfformio orau, gyda lledaeniad yn tynhau 38 bps i 265. Mae hyn yn cymharu â lledaeniad enillion uchel byd-eang, a gulhaodd 24 bps i 307 ac enillion uchel yr UD lle bu'r lledaeniad yn tynhau ar raddfa debyg (-23 bps i 267). Yn y farchnad IG, lledaeniad y DU wnaeth dynhau fwyaf (-13 bps i 70), yna lledaeniad Ewropeaidd (-11 bps i 69). Roedd graddfa buddsoddi byd-eang (-10 bps i 71) a'r UD (-9 bps i 70) rywfaint yn fwy cynnil. Fe wnaeth dyledion marchnadoedd datblygol (EMD) arian cyfred caled dynhau yn sylweddol (-37 bps i 258). Fe wnaeth EMD arian cyfred caled berfformio'n well na'r EMD arian cyfred lleol, gyda'r JPM EMBI Global Index yn codi 4.4% dros y cyfnod a'r JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index yn codi 2.8%.

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.70%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.4	2.0	4.2	-0.3	-0.4
Net	1.3	1.7	3.9	-0.5	-0.7
Mynegai FTSE World Govt Bond Index (GBP Hedged)	0.6	1.8	3.3	-1.3	-1.3
Enillion dros ben (gros)	0.8	0.2	0.9	1.0	0.9
Enillion dros ben (Net)	0.7	-0.1	0.6	0.8	0.6

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025

Meincnod: FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol. Mae gorbwysau'r Gronfa i gyfraddau ym Mecsico wedi bod yn gyfrannwr positif yn 2025 ac fe wnaeth barhau i fod yn yrrwr perfformiad allweddol yn y chwarter hwn. Cafodd yr amlygiad bychan i gyfraddau yn Seland Newydd ac Indonesia dalu ei wobrwyo. Roedd gorbwysau i gyfraddau yng Ngholombia yn gyfrannwr pellach. Tra bod tanbwysau i gyfraddau yn Siapan yn bositif - yn enwedig i ddyraniadau 5 a 10-mllynedd - yn lleoli mewn marchnadoedd traddodiadol eraill, yn cynnwys Awstralia (gorbwysau pen hir y gromlin), roedd yr UD (tanbwysau) a'r DU (gorbwysau bychan) yn negyddol.

Cronfa Credyd Byd-Eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.75%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	2.1	4.2	6.4	0.2	0.0
Net	2.1	4.0	6.2	0.0	-0.2
Bloomberg Barclays Global Agg Credit Index (GBP Hedged)	2.0	4.1	6.3	0.1	0.0
Enillion dros ben (gros)	0.1	0.1	0.1	0.1	0.0
Enillion dros ben (Net)	0.1	-0.1	-0.1	-0.1	-0.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025

Meincnod: Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged)

Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Fe wnaeth y Gronfa berfformio'n well na'r dychweliad meincnod dros y trydydd chwarter.

Mewn marchnad lle bu i enillion uchel berfformio'n well na chredyd gradd buddsoddi, bu i'r Gronfa elwa o amlygiad trosbwysau i ddiwydiannau enillion uchel yn yr UD. Roedd gorbwysau i gyfleustodau gradd buddsoddi'r UD yn effeithiol, er y cafodd hyn ei osod yn erbyn tanbwysau i ddiwydiannau gradd buddsoddi, oedd wedi tynnu oddi ar hyn. Mewn credyd yn Ewrop, roedd gorbwysau i enillion uchel diwydiannol wedi cael ei wobrwyo, ond ni fu dyraniadau i radd buddsoddi yn help o gwbl. Mewn credyd y DU, roedd amlygiad tanbwysau i radd buddsoddi (ariannol, cyfleustodau) yn negyddol. Mewn arian caled EMD, bu amlygiad tanbwysau i Asia, Ewrop a'r Dwyrain Canol wedi bod yn rhwystr. Hefyd, roedd amlygiad tanbwysau i ddyled sofran Sbaeneg hefyd yn aneffeithiol, tra bo amlygiad i gredyd 'securitised' yn help bychan, yn sgil trosbwysau i gredyd 'passthrough'. Coolabah oedd y rheolwr oedd yn perfformio orau, gyda chyfraniadau o 'securities' uwch ac israddol ar y cyd â'r llywodraeth, 'supranational' a bondiau asiantaeth. Fidelity berfformiodd waethaf, a gafodd ei effeithio'n negyddol gan amlygiad tanbwysau i gredyd gradd buddsoddi Ewropeaidd. Nid oedd amlygiad tanbwysau i ddyled marchnadoedd datblygol arian cyfred caled, yn enwedig yn Ewrop, yn fawr o help chwaith. Bu i MetLife berfformio'n well na'r disgwyl, ac roedd Robeco yn unol â'r meincnod. Bu'r amlygiad gorbwysau i gyfrannau credyd enillion uchel yr UD yn gymorth hefyd. Bu i Robeco fwynhau cyfraniadau positif o drosbwysau i enillion uchel a gradd buddsoddi yn Ewrop.

Cronfa Credyd Aml-ased:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA + 4%** dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	4.2	7.7	11.0	4.5	4.5
Net	4.2	7.3	10.6	4.1	4.1
3 Mis GBP SONIA + 4%	2.0	8.8	8.9	7.1	7.0
Enillion dros ben (gros)	2.2	-1.1	2.1	-2.6	-2.5
Enillion dros ben (Net)	2.2	-1.5	1.7	-3.0	-2.9
Meincnod dyrannu asedau strategol	2.4	7.0	9.3	4.3	-

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

*Nid yw amlygiad arian cyfred lleol EMD yn cael ei rag-fantoli yn y cyfanswm SAA hwn.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol yn y trydydd chwarter.

Cafodd safleoedd credyd a chyfraddau'r Gronfa eu gwobrwyo dros y cyfnod tra bod dyraniadau arian cyfred wedi lleihau. Mewn cyfraddau, y cyfrannwr positif mwyaf at y perfformiad oedd amlygiad troswysau i Drysorlysoedd yr UD. Bu i amlygiad gor-bwysau i fundiau'r Almaen, yn benodol dyraniadau blwyddyn, fod yn fuddiol hefyd. Hefyd, roedd amlygiad troswysau i gyfraddau ym Mecsico yn elfen positif amlwg. Mewn credyd, roedd amlygiad troswysau i ddiwydiannau enillion uchel yn yr UD, Ewrop a'r DU, wedi cyfrannu'n positif. Roedd amlygiad troswysau i ddyled marchnad datblygol arian cyfred caled hefyd yn effeithiol, yn enwedig enillion uchel yn America Ladin. Roedd dyraniadau i gredyd 'securitised' yr UD yn fuddiol, yn bennaf yn sgil troswysau i drosglwyddiadau risg credyd asiantaeth, ymrwymadau benthychiadau gyda gwarant ac ymrwymadau morgais gyda gwarant (dim asiantaeth). Mewn arian cyfred, ni fu tanbwysau i sterling y DU a throswysau i ddoler y DU yn help. Cofnododd yr holl reolwyr gwaelodol ddychweliadau positif. Cafodd RBC UK (BlueBay) ei helpu gan droswysau i Drysorlysoedd yr UD a giltiau'r DU. Hefyd fe gafodd ei wobrwyo am amlygiad troswysau i ddyled marchnadoedd datblygol arian cyfred caled. Cafodd Man GLG ei gosbi am amlygiad tanbwysau i ddyled marchnadoedd datblygol arian cyfred caled, yn enwedig yn America Ladin ac Asia.

Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA + 2%**, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.2	6.8	6.7	4.5	4.5
Net	1.1	6.5	6.4	4.2	4.2
3 Mis GBP SONIA + 2%	1.5	6.7	6.8	5.0	5.0
Enillion dros ben (gros)	-0.3	0.1	-0.1	-0.5	-0.5
Enillion dros ben (Net)	-0.4	-0.2	-0.4	-0.8	-0.8

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol. Gostwng fu hanes enillion Trysorlys yr UD, ond cynyddu wnaeth enillion bondiau yn ardal yr Ewro, y DU a Siapan. Roedd chwyddiant yn uwch mewn economïau mawr, ac roedd hyn yn gweddu i amlygiad y Gronfa i fondiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Mewn marchnadoedd credyd, culhau wnaeth y lledaeniad, yn enwedig o ran enillion uchel. Roedd hyn yn gweddu i ddyraniad y Gronfa i warantau Ewropeaidd sy'n cael eu cefnogi gan asedau (ABS). Roedd y farchnad hon yn adlewyrchu'r cryfder ehangach mewn marchnadoedd credyd wrth i lledaeniad 'crossover' dynhau i'r lefelau isaf dros y tair blynedd ddiwethaf. Wellington, yr arbenigwr macro byd-eang oedd yr unig strategaeth i gofnodi dychweliad negatif, wrth i berfformiad positif mewn cyfraddau a chredyd gael ei osod yn erbyn y gwendid mewn sefyllfa arian cyfred. Roedd sefyllfa hir cysylltiedig â chwyddiant a byrhoedledd Siapaneaidd wedi ychwanegu gwerth, tra bo EM FX, yen Siapan hir a rand De Affrica byr yn erbyn doler yr UD wedi lleihau

Cronfa Credyd Sterling:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.65%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa net o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch3 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	0.6	3.9	7.8	0.0	-0.2
Net	0.6	3.7	7.6	-0.1	-0.3
Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling	0.7	3.7	6.9	-1.1	-1.1
Enillion dros ben (gros)	-0.1	0.2	0.8	1.1	0.9
Enillion dros ben (Net)	-0.1	0.0	0.7	0.9	0.8

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2025

Meincnod: Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Fe wnaeth y portffolio danberfformio o fymryn dan y meincnod dros y chwarter. Fe wnaeth sefyllfa strwythur y tymor dynnu oddi wrth y perfformiad, gyda sefyllfa hir sterling yn pwyso ar ddychweliadau wrth i enillion gilt godi uwchben y gromlin. Hefyd, bu i sefyllfa anffafriol drwy'r model 'quant' gael effaith negyddol ar berfformiad. I'r gwrthwyneb, cafwyd cyfraniad positif yn sgil sefyllfa byr yr ewro.

Fe wnaeth y sefyllfa gredyd gyfrannu'n bositif at berfformiad, wedi'i gefnogi gan ddyraniad sector darbodus. Roedd amlygiad troswysau i'r sector bancio ac enwau 'securitised' yn gyfranwyr allweddol. Ar lefel cyflwynwr, roedd New York Life Insurance, Morgan Stanley a Royal London yn berfformwyr amlwg. Fe wnaeth sefyllfa tanbwysau gyda chyflwynwyr megis Legal & General a Wells Fargo dynnu rhywfaint oddi wrth y perfformiad. Fe wnaeth y tanbwysau strwythurol mewn enwau 'quasi-supranational' megis Banc Buddsoddi Ewrop, yr International Bank for Reconstruction and Development a KfW bwysu ar y dychweliadau.